CROESO I | WELCOME TO

# CORS PANT MARSH

Rhan o Brosiect Tirwedd Fyw RhCT | Part of the RCT Living Landscape Project



## RYDYN NI'N BYW YMA... ALLWCH CHI EIN GWELD NI?




Glöyn Adain Garpiog • Comma
© Bethan Dalton



Broga • Common Frog
© Bob Lewis



Baner y Gors • Yellow Iris
© Lyn Evans




Cwcwll y Mynach • Monk's Hood
© Lyn Evans



Neidr y Gwair • Grass Snake
© Wayne Withers



Corsgudyn • Marsh Cinquefoil
© Lyn Evans



Britheg y Gors • Marsh Fritillary
© Bethan Dalton



Bronwen y Dŵr • Dipper
© Wayne Withers

## WE LIVE HERE... CAN YOU SPOT US?

## Cynefin

Tir glas ar orlifdir yn llawn rhywogaethau amrywiol yw Cors Pant, ac mae'n dibynnu ar lifogydd a llif uchel yr afon Clun. Mae hyn yn rhoi cymeriad unigryw ac arbennig i'r mosäig cyfoethog o laswelltiroedd niwtral a chorsiog, gwern a choetir gwlyb. Mae angen pori'n ystyrlon yn y cynefinoedd yma, rheoli'r coetiroedd gan ddefnyddio dull 'torri a chasglu' a rheoli planhigion ymledol.

## Pryd i Ymweld

Yn yr haf, ewch i weld blodau lliw gwyn-hufen barf y bwch ac angyles y coed. Mae blodau pinc carpiog y gors yn bywiogi'r hesg tra bod cadwyni porffor o flodyn gwenwynig cwcwll y mynach yn cuddio yng nghysgod glannau'r afon. Ar ddechrau'n hydref mae tarth o damaid y cythraul i'w weld yno. Yn y gaeaf mae gïach yn bwydo yno ac yn y gwanwyn mae bras y cyrs i'w clywed yn canu.

## Bioamrywiaeth

Mae'r cynefinoedd yma yn wych ar gyfer rhywogaethau megis y glöyn copor bach, gwyfyn ffacbys a'r gwenynen clafrllys bach. Mae nadredd y gwair yn hela am frogaod yn y gwair gwlyb, mae bronwennod y dŵr yn chwilio am berdys yn yr afon wrth i ddyfrgwn grwydro heibio. Mae modd adnabod bodaod trwy glywed eu synau 'kee-yaa' unigryw, eu hadenydd llydan a chrwn a'u cynffonau byr. Mae planhigion y cynefin yma'n cynnwys gold y gors, gellesgen ac eglyn. Mae rhesi o hesg prin a chorsgudyn prydferth yn tyfu yn y cornentydd, a bacwn ac wy a dant y llew lleiaf yn tyfu ar y glaswelltir sych.

## Habitat

Pant Marsh is a rare, species-rich floodplain grassland which depends on the River Clun's floods and high flows. This gives a special character to the rich mosaic of neutral and marshy grassland, swamp and wet woodland. These habitats need sympathetic grazing, 'cut and collect' and woodland management, and invasive plant control.

## When to Visit

In summer, spot the creamy white flowers of meadowsweet and angelica. The pink ragged robin flowers enliven the sedge beds while violet-blue spires of the beautiful, but very poisonous, monk's-hood flower in riverbank shade. In early autumn there is a haze of blue-purple devil's-bit scabious. In winter, snipe feed and in spring, reed buntings sing.

## Biodiversity

The habitats here are fantastic for species such as the small copper butterfly, burnet companion moth and the small-scabious bee. Grass snakes hunt for frogs in the marshy grass, dipper search for shrimp in the river riffles and otters pass through. Buzzards, with their cat-like 'kee-yaa' call, can be identified by their broad, rounded wings and short tails.

Characteristic plants include marsh marigold, flag iris and opposite-leaved golden saxifrage. Beds of rare bladder sedge and the beautiful marsh cinquefoil grow in wet runnels, with bird's-foot trefoil and rough hawkbit in the dry grassland.

Bwncath • Buzzard | © Wayne Withers



**Mae Tirweddau Byw yn rhwydwaith o safleoedd sy'n cael eu rheoli er budd byd natur.**
Mae'r ardaloedd pwysig yma'n llawn bywyd gwyllt ac yn cysylltu ein cymunedau â chefn gwlad ehangach. Gallwn ni i gyd fwynhau'r lleoliadau arbennig yma - byd natur ar stepen eich drws.

**Os ydych chi eisiau cymryd rhan, anfonwch e-bost at: bioamrywiaeth@rctcbc.gov.uk**
**neu fwrw golwg ar: www.rctlnp.wixsite.com/rct-actionfornature**

*Cyllid Lleoedd Lleol ar gyfer Natur gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 'Prosiect Tirwedd Fioamrywiol RhCT: Byd Natur ar Stepen eich Drws'*

**Living Landscapes is a network of sites managed for wildlife.**
These important areas are nature hotspots and connected stepping stones in the wider countryside. We can all enjoy these special places – nature on your doorstep.

**If you would like to get involved, please contact us via: biodiversity@rctcbc.gov.uk**
**Or visit: www.rctlnp.wixsite.com/rct-actionfornature**

*Local Places for Nature Funding from Welsh Government for 'RCT Biodiverse Landscape Project: Nature on Your Doorstep'*

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Rhondda Cynon Taf
Partneriaeth Natur Lleol
Local Nature Partnership

RHONDDA CYNON TAF